Annwyl Gwsmeriaid

**Newid i oriau newydd Radnor, Llanfair Llythynwg, Almeley, Walton, Wigmore, Dorstone a gwasanaethau symudol Pembridge.**

**Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol – Penderfyniad**

Rwy’n ysgrifennu i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen a’n cynllun i newid oriau agor gwasanaethau symudol Swyddfa'r Post i gymunedau Maesyfed, Llanfair Llythynwg (Gladestry), Almeley, Walton, Wigmore, Dorstone a Pembridge.

Cawsom 19 ymateb unigol gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Roedd peth o’r ymateb yn gefnogol i’r newidiadau am ein bod yn gallu cadw gwasanaethau Swyddfa'r Post. Fodd bynnag, roedd ymatebion eraill yn datgan nad yw’r oriau agor arfaethedig yn ddigonol o bosibl i ateb gofynion cwsmeriaid sy’n defnyddio Swyddfa’r Post yn yr ardaloedd dan sylw. Bu'r adborth hwn yn fodd i mi ddeall pryderon y cwsmeriaid yn well a gwneud yn siŵr fod pob gwybodaeth o’r fath yn cael ystyriaeth cyn inni wneud penderfyniad terfynol.

Ein blaenoriaeth bob tro yw diogelu gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymunedau gwledig, ac felly mae’n bwysig fod y gwasanaeth yn hyfyw i’n Postfeistr sy’n ei redeg ar ein rhan. Newid yr oriau agor yw'r ateb gorau posibl i ni er mwyn gallu darparu gwasanaethau cynaliadwy i’n cwsmeriaid yn yr hirdymor.

Rydym yn deall y gall yr oriau agor newydd fod yn llai cyfleus i rai cwsmeriaid nag i eraill, ac yn naturiol rydym yn gresynu hynny. Fodd bynnag, rydym o’r farn y bydd oriau’r Gwasanaeth Symudol yn golygu y gallwn gynnal gwasanaeth i’r gymuned yn yr hirdymor. Byddwn yn dal i adolygu a monitro'r gwasanaeth drwy'r amser, a phe bai cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r gwasanaeth, byddem yn ystyried newid yr oriau agor yn unol â hynny.

Rwyf wedi ystyried f’argymhelliad gwreiddiol yn ofalus ac rwy'n ffyddiog taw newid yr oriau agor yw’r cam cywir i’w gymryd er mwyn ateb gofynion ein cwsmeriaid yn y cymunedau lleol.

Bydd posteri'n cael eu harddangos nawr i roi gwybod i gwsmeriaid am y penderfyniad hwn. Yr oriau newydd yn dechrau wythnos yn cychwyn ar 1 Mai 2018.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 158618

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

**Neil Jenkins**
**Rheolwr Newidiadau i’r Rhwydwaith Ardal**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments

**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

**Manylion am y gwasanaeth newydd:**

<table>
<tr><td>Gwasanaeth Symudol newydd Maesyfed<br>Maes Parcio y Radnor Arms<br>Stryd Lydan<br>Maesyfed<br>Llanandras<br>LD8 2SP</td><td>Yr oriau agor presennol<br>Mawrth 16:30 – 17:30<br>Gwener 15:30 – 17:00<br>Sadwrn 12:00 – 13:00<br><br>Yr oriau agor newydd<br>Llun 15:30 – 16:30<br>Gwener 15:30 – 16:30</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Gwasanaeth Symudol Llanfair Llythynwg (Gladestry)<br>Y Maes Parcio<br>Neuadd y Pentref Llanfair Llythynwg<br>Llanfair Llythynwg<br>Ceintun<br>HR5 3NR</td><td>Yr oriau agor presennol<br>Mercher 15:00 – 16:00<br>Iau 09:00 – 10:00<br><br>Yr oriau agor newydd<br>Mercher 15:00 – 15:45<br>Iau 09:00 – 10:00</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Gwasanaeth Symudol Almeley<br>Y Gilfan y tu allan i 1 West View<br>Almeley<br>Henffordd<br>HR3 6LE</td><td>Yr oriau agor presennol<br>Llun 09:00 – 10:30<br>Mawrth 11:00 – 12:00<br>Mercher 12:30 – 13:30<br>Gwener 09:00 – 10:00<br><br>Yr oriau agor newydd<br>Llun 09:00 – 10:30<br>Mercher 12:30 – 13:30<br>Gwener 09:00 – 10:00</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Gwasanaeth Symudol Walton<br>Y tu allan i Neuadd Bentref Walton<br>Walton<br>Llanandras<br>LD8 2PY</td><td>Yr oriau agor presennol<br>Llun 15:30 – 16:30<br>Mercher 16:05 – 17:05<br><br>Yr oriau agor newydd<br>Mercher 16:00 – 17:00</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Wigmore**<br>Mortimer Stores<br>Castle Garage<br>Wigmore<br>Leominster<br>HR6 9UJ | **Yr oriau agor presennol**<br>Llun 11:00 – 12:30<br>Mawrth 15:00 – 16:00<br>Iau 13:30 – 15:00<br>Gwener 10:30 – 12:00<br>Sadwrn 10:30 – 11:30<br><br>**Yr oriau agor newydd**<br>Llun 11:00 – 12:30<br>Iau 13:30 – 15:00<br>Gwener 10:30 – 12:00 |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Dorstone**<br>Y Maes Parcio y tu allan i'r<br>Hen Swyddfa Bost<br>Dorstone<br>Henffordd<br>HR3 6AN | **Yr oriau agor presennol**<br>Mawrth 09:00 – 10:30<br>Mercher 10:30 – 12:00<br><br>**Yr oriau agor newydd**<br>Mercher 10:30 – 12:00 |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Pembridge**<br>Maes Parcio East Street<br>Y drws nesaf i dafarn The Kings House<br>Pembridge<br>Leominster<br>HR6 9HB | **Yr oriau agor presennol**<br>Llun 14:00 – 15:00<br>Mawrth 13:30 – 14:30<br>Iau 15:30 – 16:30<br>Gwener 13:30 – 15:00<br>Sadwrn 09:00 – 10:00<br><br>**Yr oriau agor newydd**<br>Llun 14:00 – 15:00<br>Iau 15:30 – 16:30<br>Gwener 13:30 – 15:00 |